# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

**DYDD** Gwener, 7 Hydref 2016

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** M. Gravell (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
C. Ferguson, Swyddog Mynediad I Cefn Gwlad;
C. Owen, Cynorthwy-ydd Adfywio Cymunedol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 14 GORFFENNAF 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 14 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.**

**3. LLWYBR TROED CYHOEDDUS 9/6, HAZELWELL HOUSE, HENDY-GWYN AR DAF.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gais am wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Cofrestredig 9/6 o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Roedd y swyddogion wedi dod i'r casgliad fod y cais yn bodloni'r meini prawf a bennwyd yn y Ddeddf uchod, sef ei bod yn hwylus fod cwrs y llwybr yn cael ei wyro er budd perchennog y tir a groesir gan y llwybr, nad oedd y gwyriad arfaethedig llawer yn llai cyfleus i'r cyhoedd, nac ychwaith yn effeithio'n andwyol ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr yn ei gyfanrwydd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais a gwneud y Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus priodol yn unol ag adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

**4. CYMORTH ARIANNOL O'R GRONFA GRANT GANLYNOL: GRANT CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Clwb Rygbi Sanclêr | £10,000.00 |
| Eglwys San Mihangel, Gelli Aur | £3,000.00 |
| Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch | £3,000.00 |

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD